3.55

# Cwyn y Bachgen Dall o Dreforris.

Cydneswch, bawb o'r Cymry,
  O ddifri yn ddiball,
Gwrandewch a chywir galon,
  Ar gwynfan bachgen dall ;
Gwnewch sylw o'm sefyllfa,
  Mawr alar i mi sydd,
Fe'm ganwyd, fel y gwelwch,
  Heb weled goleu'r dydd.

Mae pump o lan synwyrau
  Naturiol genych chwi,
Er cymaint yw ngorthrymder,
  Mae pedair genyf fi ;
'Rwy'n clywed ac arogli,
  Archwaethu a theimlo'n glir,
Er nad wyf ddim yn gweled,
  Mae'n golled fawr yn wir.

'Does genyf ond dychymyg
  Am bethau is y rhod,
Chwychwi sy'n meddu llygaid,
  Rho'wch wybod beth sy'n bod ;
Mynegwch eu rhinweddau,
  A'u troion aml eu rhi,
Yn fachgen dall y'm ganed—
  Trwm iawn yw 'nghyflwr i.



100/2

X2051979921

Mi glywais fod y ddaear
  Yn llawn o borfa las,
A chaeau llon a llysiau
  Yn rhoddi ffrwythau'i ma's;
Os nad wyf yn camsynied,
  Caf glywed genych chwi—
Yn fachgen dall y'm ganed,
  Trwm iawn yw 'nghyflwr i.

Mi glywais i fod llongau
  A'u hwyliau mawr a'u stwr
I'w gwel'd fel gwych balasau
  Yn symud dros y dwr,
Yn morio am drysorau,
  A'u dwyn yn ol i mi,
A minnau'n methu gweled,
  Trwm iawn yw 'nghyflwr i.

Mi glywais fod y dynion,
  Rhai'n dduon, rhai yn wyn,
Mynegwch yn ddiaros,
  Beth yw yr achos hyn;
Paham mae rhai yn dduon?
  Os gellwch, d'wedwch chwi;
Nis gallaf fi ddim deall,
  Yn ddall y'm ganed i.

Mae swn yr anifeiliaid
  I'm clustiau'n rhyfedd iawn,
Mil gwell nag aur yr India
  Yw gwel'd y rhain, pe cawn;
Mae myrdd o ryfeddodau
  Ar hyd ein daear ni,
Ni chaf fi byth eu gweled,
  Trwm iawn yw 'nghyflwr i.

Rho'wch wybod, lon gyfeillion,
  Mae'ch llygaid genych chwi,
Pa fodd mae'r haul yn symud?
  Eglurwch hyn i mi;
Paham mae haf a gauaf
  Mor gyson gyda ni?
Yn fachgen dall y'm ganed,
  Trwm iawn yw 'nghyflwr i.

Mi glywais fod yr heulwen
  Yn ddisglaer iawn ei lliw,
A'i bod hi'n famaeth gywir
  I bob creadur byw,
Fel cawr yn rhedeg gyrfa
  Uwchben ein daear ni,
A minnau'n methu gweled,
  Trwm iawn yw 'nghyflwr i.

Mae'r ser a'u llewyrchiadau,
  A'u troion dyrys maith,
A'u gyrfa hir o'r dwyrain
  Dros y gorllewin maith;
Pa fodd mae rhai'n heb dd'rysu?
  Os gellwch, d'wedwch chwi—
Nis gallaf fi ddim ddeall,
  Yn ddall y'm ganed i.

Mae yna fydoedd tanllyd,
  Yn yr eangder mawr,
Rhyw gannoedd o flynyddoedd
  Cyn dod i gylch y llawr;
Pa fodd mae rhai'n heb dd'rysu?
  Os gellwch, d'wedwch chwi—
Nis gallaf fi ddim deall,
  Yn ddall y'm ganed i.

Rhow'ch wybod, lon gyfeillion,
  Mawr alar i mi sydd,
Trwm iawn yw bod heb lygaid
  I weled goleu'r dydd ;
Gobeithio gwnewch dosturio,
  Mae llygaid genych chwi ;
Yn fachgen dall y'm ganed,
  Trwm iawn yw 'nghyflwr i.

Y lloer sydd yn ymddangos
  Yn gyson ger eich bron,
Bob nos yn newid amser
  Ei hymddangosiad llon,
Bob mis yn newid hefyd,
  Datguddiwch, d'wedwch chwi—
Yn fachgen dall y'm ganed,
  Trwm iawn yw 'nghyflwr i.

Pwy bynag sydd yn gofyn,
  Trwy barthau bro a bryn,
Caiff wybod yn ddiamheu
  Pwy wnaeth y geiriau hyn ;
Un sydd a'i lwyr ddymuniad
  A chariad yn ddiball,
I wneuthur rhyw ddaioni
  I mi sy'n fachgen dall.

---

J. D. Lewis, Argraffydd, Gomerian Press, Llandyssul.